

Protocol cludiant rhwng y cartref a'r ysgol Medi 2020 (lleoliadau prif ffrwd)

Rhagarweiniad

Mae'r protocol hwn yn cynnwys disgwyliadau a chanllawiau allweddol i rieni/gofalwyr a'u plant sy'n defnyddio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam.

Mae'r protocol yn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru. Sylwer y gall newidiadau i ganllawiau cenedlaethol effeithio ar hwn a chaiff ei ddiweddarau pan fo'n briodol.

Dylid ystyried y defnydd o ddulliau teithio llesol fel cerdded a beicio, a'i annog gan rieni/gofalwyr a dysgwyr. O ystyried y potensial ar gyfer cyfyngiadau o ran capasiti ar y rhwydwaith trafniadaeth a all effeithio ar allu dysgwr i fynd i'r ysgol, dylid ystyried holl ddulliau teithio cynaliadwy ble mae'n ddiogel gwneud hynny.

Mae'r protocol yn darparu arweiniad ar roi camau diogelwch ar waith i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol i sicrhau y gall dysgwyr fynychu'r ysgol/lleoliadau.

Rhieni a myfyrwyr (dysgwyr)

Cyfrifoldeb y rhieni yw:

- (a) Sicrhau nad yw dysgwyr yn teithio os bydd unrhyw un yn y cartref yn symptomatig, pan fydd y dysgwr/dysgwyr yn hunan-ynysu am y 10 diwrnod oni bai y cysylltwyd â nhw gan y tîm Tracio ac Olrhain (sy'n 14 diwrnod).
- (b) Sicrhau fod gan ddysgwyr orchudd wyneb addas i'w wisgo ar siwrnai cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Mae angen gorchudd wyneb ar gyfer pob siwrnai i'r dysgwyr 11 oed a hŷn.
- (c) Dim goddefgarwch ar gyfer ymddygiad drwg ar gludiant (i gynnwys amgylchiadau ble nad yw dysgwr yn dilyn cyfarwyddiadau a roddwyd).
- (d) Sicrhau fod dysgwyr yn golchi eu dwylo (neu i ddysgwyr iau fod rhieni yn gwneud hynny iddynt) neu'n defnyddio hylif diheintio priodol yn drwyadl cyn gadael eu cartref neu'r ysgol a mynd yn y cerbyd.
- (e) Atgoffa dysgwyr i ddilyn rhes sengl i fynd i mewn i'r cerbyd, y sawl dros 11 oed yn cynnal pellter 2 fetr bob amser, tra'n aros a chiwio.

- (f) Atgoffa dysgwyr bod yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn dilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddynt gan eu gyrrwr neu staff yr ysgol.
- (g) Atgoffa dysgwyr y byddant yn cael sedd benodol ar y cerbyd a bod yn rhaid i ddysgwyr aros yn y sedd honno ar gyfer y siwrnai gyfan. Bydd angen trefniadau gwahanol i'r sawl sy'n teithio ar wasanaethau bysiau lleol.
- (h) Cydnabod na chaniateir yfed na bwyta o gwbl ar unrhyw gerbyd ar unrhyw adeg.
- (i) Atgoffa y bydd y fframwaith ymddygiad a Chod Cludiant i'r Ysgol yn parhau ar waith ac y bydd unrhyw ddysgwr sy'n camymddwyn, peryglu neu achosi difrod i'r cerbyd neu anaf i'r gyrrwr neu deithwyr, neu mewn unrhyw ffordd yn bygwth iechyd a diogelwch teithwyr eraill neu gerbyd yn ddarostyngedig i waharddiad uniongyrchol o'r cludiant i'r ysgol ar gyfer y dysgwyr dan sylw.

Seddi ar gael ar gerbydau cludo

Y dysgwyr sydd wedi ymgeisio ac wedi derbyn cadarnhad bod yna le iddynt ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol fydd yn cael caniatâd i deithio ar y cerbyd. Dylai holl ddysgwyr gyflwyno eu tocyn teithio i'r gyrrwr wrth fynd ar y cerbyd.

Ni fydd y dysgwyr hynny sydd heb ymgeisio am, neu sydd heb docyn teithio a gyhoeddwyd gan Gyngor Wrecsam yn cael caniatâd i fynd ar y cerbyd na theithio.

Ar gerbydau penodol, bydd dysgwyr angen cadw at gynllun eistedd drwy gydol y daith. Bydd seddi yn seiliedig ar grwpiau blwyddyn ble bo'n bosibl.

Bydd dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer cludiant am ddim sy'n teithio ar wasanaethau bysiau lleol angen dilyn cyfarwyddyd y gweithredwr perthnasol.

Defnyddio gorchudd wyneb

Mae angen gorchudd wyneb ar gyfer holl ddysgwyr dros 11 oed dim gwahaniaeth pa fath o gerbyd y byddant yn teithio arno.

Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr angen gwisgo gorchudd wyneb. Mae hyn yn cynnwys y rhai ble byddai gwneud hynny yn achosi risg meddygol, gofid ac mewn rhai sefyllfaoedd ble mae gan ddysgwr anghenion dysgu ychwanegol.

Aros mor ddiogel â phosibl

Dylai rhieni/gofalwyr sicrhau fod dysgwyr yn cymryd y rhagofalon canlynol:

- Y sawl sy'n 11 oed neu hŷn yn cadw pellter 2 fetr oddi wrth bobl y tu allan i'w cartrefi eu hunain tra'n aros am gludiant.
- Wynebu i ffwrdd oddi wrth bobl eraill tra'n aros a defnyddio cludiant.
- Ceisio lleihau'r nifer o arwyneb y byddant yn eu cyffwrdd.
- Golchi neu lanhau dwylo gyda hylif priodol ar gyfer yr amser cyn mynd i mewn i gerbyd. Dylid gwneud hyn yn fwy trwyadl ac yn amlach nag arfer.

- Gwneud yn siŵr fod ganddynt hances bapur bob amser i'w "ddal, ei daflu, a'i ddifa" i sicrhau hylendid resbiradol da.
- Yn syth ar ôl y siwrnai, golchi dwylo eto gynted â phosibl.
- Sicrhau os ydych yn symptomatig nad ydych yn defnyddio cludiant na mynd i'r ysgol.
- Sicrhau eich bod yn dilyn holl gyfarwyddiadau gan yrwyr a staff, eistedd ac aros mewn sedd ddynodedig drwy gydol y siwrnai.
- Cynllun wrth gefn os na fydd y cludiant yn cyrraedd (e.e. os bydd y gyrrwr yn sâl ar fyr rybudd).

Os bydd eich plentyn yn datblygu symptomau yn yr ysgol, byddwch angen gwneud trefniadau i gasglu eich plentyn. Ni fydd plant symptomatig yn cael caniatâd i ddefnyddio cludiant na gwasanaethau bws lleol.

Disgwyliadau myfyrwyr

Bydd dysgwyr yn mynd ar y cerbyd yn dawel un ar y tro, heb wthio.

Mae rhieni yn derbyn ac yn cytuno i'r telerau yn y protocol hwn wrth ganiatáu i'w plant ddefnyddio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Bydd rhieni angen rhannu'r ddogfen hon gyda'u plant a'i thrafod gyda nhw.

Ar sail iechyd y cyhoedd, bydd yna bolisi goddef dim ynglŷn ag ymddygiad ac eistedd ar gludiant i ddysgwyr, gan gynnwys safle bws, lleoliadau addysg ac wrth i deithwyr fynd ar ac oddi ar y cerbyd. Ni fydd dysgwyr nad ydynt yn cydymffurfio a'r gofynion hyn yn cael parhau i deithio ar gludiant.

Bydd dysgwyr yn cydymffurfio â'r gofynion a chyfarwyddyd staff ysgol pan fyddant ar y safle.

Bydd rhieni angen trafod cynllun wrth gefn gyda'u plant os na fydd dysgwr yn cael ei gasglu gan y gyrrwr wrth y safle bws (e.e. os bydd y gyrrwr yn sâl a dim cludiant ar gael munud olaf) neu os na fydd enw'r plentyn ar restr y cyngor o'r sawl sy'n gallu teithio. Dylai dysgwyr sicrhau eu bod yn cario eu tocyn bws gyda nhw bob amser. Y sawl sy'n gymwys yn unig fydd yn gallu defnyddio cludiant penodedig i'r ysgol.

Os nad ydych wedi derbyn tocyn bws neu alwad ffôn/llythyr i gadarnhau cludiant eich plentyn, ni fydd eich plentyn yn cael sedd ac ni fydd yn gallu teithio. Mae'r gyrrwr wedi derbyn cyfarwyddyd i gludo'r sawl sydd ar y rhestr yn unig. Mae hyn am resymau iechyd y cyhoedd. Peidiwch â gadael i'ch plentyn geisio defnyddio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol os nad yw eu henw ar y rhestr. Os ydych, a bod eich plentyn yn cael ei adael ar ymyl y ffordd, byddwch angen sicrhau bod eich plentyn yn gwybod beth i'w wneud a dylech drafod hyn gyda'ch plentyn.

Y sawl ar restr y gyrrwr yn unig fydd yn gallu teithio. Rydym angen cadw rhestr gywir o ddysgwyr i allu cydweithio yn ôl gweithdrefnau Profi, Orlhain, Diogelu ac os bydd angen byddwn yn rhannu eich manylion gyda'r asiantaethau priodol sy'n helpu i atal lledaeniad y coronafeirws.

Os bydd gan blentyn sy'n teithio ar gludiant symptomau, ni ddylent ddefnyddio unrhyw fath o gludiant na mynd i'r ysgol am gyfnod o 10 diwrnod neu 10 diwrnod ar ôl prawf cadarnhaol. Os bydd aelod arall o'r cartref yn symptomatig, ni ddylai plant sy'n defnyddio cludiant i'r ysgol deithio na mynd i'r ysgol am 14 diwrnod.

Ni ddylai plant sy'n dangos symptomau mae rhieni'n teimlo sydd fel annwyd cyffredin ddefnyddio'r cludiant a ddarperir chwaith a dylai'r cartref hunan-ynysu am y cyfnod penodedig.

Bydd holl ddysgwyr angen golchi eu dwylo'n drwyadl yn unol â chanllawiau cenedlaethol cyn gadael eu cartref ar gyfer y siwrnai cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, ac eto yn y prynhawn yn yr ysgol.

Os bydd plentyn yn symptomatig yn yr ysgol, gan gynnwys yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl y gloch olaf (e.e. cyn mynd ar gerbyd cludiant i ddysgwyr), ni fydd dysgwyr yn mynd i mewn i'r cerbyd. Yn hytrach, bydd ysgolion yn gweithredu eu polisiâu eu hunain ar gyfer cyfyngiant feirws a delio gyda'r dysgwr heb iddynt fynd i mewn i'r cerbyd. Bydd rhieni angen casglu eu plentyn.